

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,

Nos Lun, 24 Medi 2018

am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol: J Ferry **JF**, B Hughes **BH**, A Ifan **AI**, L Jones **LJ**, A Jones **AJ**, E Jones **EJ**, V Owen **VO**,
OG Roberts **OGR**, JA Roberts **JAR**, EAB Thomas **EABT**, Cynghorwr J Griffith **JG**, R Owen **clerc**.

Ymddiheuriadau: Cari Jones.

2. Datgan Diddordeb: **BH, JAR, EABT, JG** ynglyn ac eitem 5.

3. Cofnodion Gorffennaf 2018 ac unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Nodwyd fod pawb wedi derbyn copiau o'r cofnodion. **EABT** yn cynnig eu bod yn gywir. **VO** yn eilio.

3.1 Y clerc wedi derbyn adborth gan CSYM ynglyn a torri gwair yng ngerddi tai cyngor. Nid yw CSYM yn gallu trafod unrhyw drefniadau personol, dim ond dweud fod trefniadau mewn lle gyda rhai tenantiaid i dorri eu gwair. Nodwyd fod gwair angen ei dorri yng nghefn y tai pensynwyr. Y clerc i wneud ymholiadau gyda CSYM pwy sy'n grfrifol.

3.2 Ebost wedi ei dderbyn gan CSYM yn cadarnhau oherwydd pwysau mawr ar gyllideb cynnal priffyrdd eu bod wedi defnyddio'r un pyst ar gyfer yr awyddion newydd, ac felly nid oedd modd codi'r arwyddion. Nodwyd anfodlondeb gyda'r ymateb gan fod difrod yn cael eu greu i'r arwyddion wrth dorri'r gwair am eu bod mor isel. Y clerc i gysylltu eto a CSYM.

3.3 Y clerc wedi derbyn cadarnhad ar lafar gan BT fod hawl symud y blwch ffon, ond disgwyl cadarnhad yn ysgrifenedig, ac wedi cysylltu a dau gontractwyr lleol am amcangyfrif.

3.4 Cadarnhawyd fod giat y fynwent wedi ei thrin.

4. Maes Chwarae/Ffrindiau Bodedern

Nodwyd fod y gwair angen ei dorri. Y clerc i gysylltu a Mon CF i weld pam mor aml mae'n cael ei dorri a pa bryd mae'r torriad nesaf i fod.

Cyngor Cymuned Bodedern



5. Materion Cynllunio.

5.1 13C200

Cais llawn ar gyfer codi adeilad allanol sydd yn ategol i'r brif annedd yn Refail Newydd, Bodedern.

Dim gwrthwynebiad.

5.2 13C194A

Cais llawn ar gyfer codi tri annedd fforddiadwy ar dir yn Rhos Angharad, Bodedern.

Ar gyfer rhesymau tegwch ac yn unol a'r rheolau sefydlog gadawodd BH, JAR ac EABT y cyfar fod oherwydd diddordeb personol yn y cais.

Dim gwrthwynebiad.

6. Gohebiaeth

6.1 Llythur ynglyn a newid lleoliad cyfarfod cyhoeddus ynglyn a'r cynllun peilonnau newydd- I fynd ar yr hysbysfwrdd.

6.2 Poster gan CAB ynglyn a'r system newydd o gredyd gynhwysol—I fynd ar yr hysbysfwrdd.

7. Taliadau i'w gwneud.

Mon Grass cutting	MGC2760	Rhif siec:200056	£480.00
ROSPA	36414	Rhif siec:200057	£ 92.40
Anglesey Computer solutions	18034	Rhif seic:200058	£ 55.00
K.Owen Steel Fabrication	6755	Rhif siec:200059	£ 144.00
HMRC	Gorff/Awst/Med	Rhif siec: 200060	£ 120.00
Cyflog clercc	Gorff/Awst/Med	Rhof Siec 200061	£ 480.00

Cyngor Cymuned Bodedern



8. Unrhyw fater arall

8.1 **LJ** yn nodi fod cwynion wedi eu gwneud ynglyn a'r draen yn creu llifogydd tu allan i'r fynwent. Y clerch i gysylltu a CSYM/Dwr Cymru. Hefyd yn nodi nad oes cyfarfod pwyllgor Towyn Trewan wedi ei gynnal yn ddiweddar.

8.2 **EABT** yn nodi bod llawer o drigolion y pentref wedi mynegi gwerthfawrogiad o'r planhgion yn addurno'r pentref.

8.3 **EABT** wedi derbyn cwynion fod baw ci yn amharu ar ddefnydd o'r llain gwyrdd rhwng y fynwent a garej bryneira. Nodwyd nad oes angen biniau baw ci arbennig oherydd caniatawyd gwaredu mewn biniau cyhoeddus cyffredin. Y clerch i drefnu arwyddion ar y llain.

8.4 **EABT** yn nodi fod y sefyllfa parcio wedi dirywio yn ddifrifol ers cau maes parcio y Crown. Mynegwyd ddi-ddordeb mewn efallai cael grant i geisio prynu'r maes parcio, ond nodwyd fod y ty tafarn a'r maes parcio yn rhan o'r un lot.

8.5 **AJ** yn mynegi pryderon ynglyn a'r gor yrru ar y B5109 o Lanynghenedl. Awgrymodd **JG** i'r clerch ysgrifennu at pennaeth yr adran priffyrdd i drefnu cyfarfod i drafod pam nad oes mesurau arafu traffic wedi eu cyflwyno er gwaethaf yr holl gwynion a fynegwyd i GSYM. Y clerch i ysgrifennu a cynnwys **JG** yn yr ohebiaeth.

8.6 **EJ** yn holi ynglyn a diweddariad gyda'r sefyllfa diffibriliwr. Nododd y clerch fod cais wedi ei wneud i'r Cynghorwr Richard Jones, ac hefyd wedi chysylltu a'r ysgol uwchradd i fynegi cefnogaeth y cyngor cymuned. Nododd **JF** fod modd gwneud cais i Wasanaeth Ambiwlans Cymru os na byddai'r cais cyntaf yn llwyddianus.

8.7 **JF** wedi derbyn cwyn fod fan wedi parcio ar y palmant dros ffordd i siop y pentref yn creu rhywystredigaeth. Nodwyd mae mater i'r heddlu fyddai rhwystredigaeth. Y clerch i gysylltu a'r Tim Plismona Cymunedol lleol.

8.8 **JF** yn nodi fod grwp newydd wedi eu greu gyda'r nod o drefnu diwrnod hwyl yn y pentref ac yn brysur yn codi arian ar hyn o bryd, ac y byddent yn dymuno rhoi poster yn yr hysbyswrdd yn y dyfodol. Cytunwyd iddynt yrru ymlaen unrhyw bosteri i'r clerch ar gyfer eu harddangos.

8.9 **JAR** hefyd wed derbyn cwynion ynglyn a'r draen tu allan i'r fynwent. Hefyd wedi derbyn cwynion fod yr hysbyswrdd rhy fach ac ddim yn eglur sut i arddangos poster yn yr hysbyswrdd. Nododd y clerch fod manylion cyswllt wedi eu nodi ar waelod yr hysbyswrdd gyda cyfarwyddiadau ar sut i drefnu arddangos poster, ac nad oedd eirioed wedi gorfod gwrthod cais i roi poster yn yr hysbyswrdd am ei fod yn llawn. Cytunwyd i ddiweddarau'r manylion gyda'r opsiwn i fynd a unrhyw boster yn hysbysu digwyddiadau lleol (dim busnesau) i garej Bryneira os yn fwy hwylus (gyda chaniatad **JF**)

Cyngor Cymuned Bodedern



8. Unrhyw fater arall (Parhau)

8.10 **JAR** yn nodi fod y darn o dir gwastraff ger lon Baptist yn ymddangos yn fler. I gysylltu a CSYM am ddiweddariad.

8.11 Nodwyd fod Eisteddfod llwyddiannus wedi ei chynnal yn Gaerdydd. Mynegodd **OGR** bryder ei bod yn ymddangos fod buddsoddiadau sylweddol yn cael eu gwneud yn y de tra rydym ni yma yn y gogledd yn cael trafferth codi cyllid ar gyfer y cyfleusterau mwyaf sylfaenol, fel y dangoswyd yn ein cyfarfodydd bob mis.

9. Dyddiad Cyfarfod nesaf

22 Hydref 2018